**Ken Skates AC/AM**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth**
**Cabinet Secretary for Economy and Transport**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

David Rees AC

Cadeirydd y Pwyllgor Materion Allanol
a Deddfwriaeth Ychwanegol

15 Mai 2018

Annwyl David

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 18 Ebrill ynghylch y polisi Masnach wedi Brexit a'r goblygiadau i Gymru.

Gaf i ddechrau drwy ddatgan unwaith eto bod Llywodraeth Cymru'n credu ei bod yn hanfodol bod Llywodraeth y DU yn cydweithio mewn ffordd gynhwysfawr ac effeithiol â'r sefydliadau datganoledig wrth ddatblygu polisi masnach, ar y mandadau ar gyfer negodi materion masnachol penodol ac ar y trafodaethau eu hunain i sicrhau bod y berthynas fasnach â'r DU yn y dyfodol yn gweithio er lles y DU gyfan.

Mae Cymru yn genedl sy'n edrych tuag allan, ac sy'n masnachu'n fyd-eang, ac mae'n lles yn dibynnu'n drwm ar fasnachu. Er ein bod yn derbyn bod masnach ryngwladol yn bwnc cadw, mae yna fuddiannau datganoledig amlwg, fel amaeth, sy'n gorgyffwrdd â pholisi masnach y DU a bod peryglon amlwg i Gymru os nad yw polisi masnach Llywodraeth y DU yn y dyfodol yn cynrychioli anghenion diwydiannau Cymru yn briodol. Mae'n hollbwysig bod Llywodraeth Cymru yn cymryd rhan yn gynnar yn y broses o drafod unrhyw drefniadau masnach rydd yn y dyfodol fel y gallwn rannu gwybodaeth yn effeithiol a dylanwadu ar ganlyniadau. Fel y nodwyd gennych, mae *Polisi Masnach; Materion Cymru* yn galw ar sefydlu Cyd-bwyllgor Gweinidogion ar Fasnach Ryngwladol fel mesur dros dro i ddarparu fforwm ar gyfer trafod a chyrraedd consensws ar faterion sy'n gysylltiedig â masnach ryngwladol.

Gan droi yn awr at eich cwestiynau penodol; fel y gwyddoch, cytunodd yr UE a'r DU ar gyfnod pontio (sy'n amodol ar y ddwy ochr yn cytuno ar gytundeb ymadael terfynol) a fydd yn para o 29 Mawrth 2019 tan 31 Rhagfyr 2020. Tan y bydd y cyfnod pontio hwnnw'n dechrau, ni fydd Llywodraeth y DU yn cael trafod cytundebau masnachu â thrydydd gwledydd.

Yn y cyfamser, y mae wedi sefydlu nifer o Weithgorau Masnachu ag amrywiaeth o drydydd gwledydd, gydag Awstralia'n un o'r rheini. Nid yw'r Adran Fasnach Ryngwladol hyd yma wedi gwahodd swyddogion Llywodraeth Cymru i gymryd rhan yn y Gweithgor Masnach

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Ken.Skates@llyw.cymru
Correspondence.Ken.Skates@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

rhwng Awstralia-DU ac nid yw wedi ymgynghori â ni ar ei waith na rhannu allbynnau ei waith â’m swyddogion nac â finne.

Byddaf yn parhau i bwyso ar Weinidogion y DIT am rôl Llywodraeth Cymru mewn unrhyw drafodaethau ffurfiol fydd yn cael eu cynnal yn ystod y cyfnod pontio. Er na chefais unrhyw drafodaethau ffurfiol gyda Llywodraeth Awstralia ar ddyfodol y berthynas fasnach rhwng y DU ac Awstralia yn ystod fy ymweliad y mis diwethaf, cymerais y cyfle i gyfarfod yn anffurfiol â rhanddeiliaid i drafod meysydd sydd o ddiddordeb i'r ddwy ochr.

Mae fy nghydweithiwr, Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig yn mynychu'r cyfarfodydd Pedairochrog gyda'r Ysgrifennydd Gwladol dros yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig a chydweinidogion o'r Gweinyddiaethau Datganoledig eraill, i sicrhau bod buddiannau amaethyddiaeth yng Nghymru yn cael eu hystyried gan Lywodraeth y DU. Mae swyddogion hefyd yn cydweithio'n agos â chydweithwyr yn Defra ble y maent yn tynnu sylw at broblemau trawsbynciol megis effeithiau posib y trafodaethau masnach.

Fel y gwyddoch, safbwynt Llywodraeth Cymru yw y dylem sicrhau mynediad llawn a dirwystr i Farchnad Sengl yr UE a pharau mewn Undeb Tollau, o leiaf ar gyfer y dyfodol agos, gan mai dyma ble y mae’r rhan fwyaf o fasnach Cymru’n digwydd. Rydym yn derbyn bod cyfleoedd sylweddol i fasnachu y tu allan i Ewrop ac rydym wedi ymrwymo i hyrwyddo Cymru dramor.  Fodd bynnag, dylai creu cysylltiadau masnachu newydd ategu'r berthynas â'r UE, yn hytrach na bod yn lle hynny. Fodd bynnag, i’r graddau y mae Llywodraeth y DU yn llwyddo yn ei uchelgais i gael polisi masnach annibynnol ar ôl Brexit, mae’n hanfodol bod tegwch a thryloywder yn y ffordd y mae cytundebau masnach yn y dyfodol yn cael eu llunio: ni fydd Llywodraeth Cymru yn cefnogi unrhyw gytundebau masnach a fyddai'n arwain at weld Cymru mewn sefyllfa waeth.

Yn gywir



**Ken Skates AC/AM**
Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth
Cabinet Secretary for Economy and Transport